

Theatr Clwyd

Cogydd Sous Theatr Clwyd, Yr Wyddgrug

Tymor Penodol tan 10/01/2021
Parhaol 14 awr yr wythnos
Graddfa TC05 - SCP 13 i 18
Cyflog o £17,391 i £18,870 pro rata

Mae Tîm Gweithredol Theatr Clwyd, y Cyfarwyddwr Artistig Tamara Harvey a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Liam Evans-Ford, yn arwain y theatr drwy gyfnod cyffrous o newid, gan adeiladu ar ragoriaeth a balchder y gorffennol i greu canolfan ddeinamig a chreadigol ar gyfer y celfyddydau yn y dyfodol.

Rydym yn chwilio am Gogydd Sous i ymuno â'n Hadran Gweithrediadau, i weithio o dan gyfarwyddyd manwl y Cogydd i baratoi bwyd rhagorol i holl gwsmeriaid a defnyddwyr Theatr Clwyd, drwy gyfrwng bwydlenni arloesol, sy'n newid, a chan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau coginio a steiliau. Bydd hyn yn cynnwys darparu amrywiaeth eang o fwyd, o wasanaeth y caffi i fwffe, digwyddiadau unigryw a chiniawau mawr.

Dylai'r darpar ymgeiswyr fod â phrofiad clir ac ymarferol o weithio fel cogydd sous neu gynorthwy-ydd cegin mewn bwyty proffesiynol. Hefyd dylai deiliad y swydd ddangos dawn a brwdfrydedd dros goginio gyda chynhwysion ffres a safonol a deall y gwaith o gynllunio bwydlenni a datblygu gwasanaeth arlwygo.

Am drafodaeth anffurfiol, cysylltwch ag:

Enw: Andy Reilly

Teitl Swydd: Rheolwr Gweithrediadau

Rhif Ffôn: 01352 701882

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod gallu cyfathrebu yn y Gymraeg yn bwysig a gwerthfawr yn y gweithle ac rydym wedi ymrwmo i gynyddu nifer ein cyflogeion dwyieithog. Rydym yn croesawu ceisiadau ar gyfer unrhyw swydd gan ymgeiswyr sy'n gallu gweithio yn y Gymraeg ac yn Saesneg. Hefyd byddwn yn cefnogi cyflogeion newydd a phresennol sy'n dymuno dysgu Cymraeg neu wella/datblygu eu sgiliau yn y Gymraeg.

Bydd trefniadau gweithio rhan amser, rhannu swydd a hyblyg yn cael eu hystyried.

